


Canllawiau Ymgynghoriadau Rhithwir

Gyda'r amgylchiadau parhaus o amgylch COVID-19 ac yn edrych i'r dyfodol, mae Orbit360 yn caniatáu ichi barhau i ymgymryd ag adborth eich cleifion a'ch cydweithwyr wrth gynnal ymgynghoriadau o bell. Mae Orbit360 yn caniatáu ichi oedi'ch adborth ac aildechrau yn ddiweddarach os bydd angen (dylech gysylltu â'ch corff dynodedig i wneud hyn).



- Mae Orbit360 yn caniatáu dull amrywiol o gasglu, gan sicrhau bod y broses hon mor ddi-dor â phosibl i chi a'ch cleifion.
- Gallwch chi lawrlwytho ffurflenni cleifion yn Saesneg, Cymraeg ac opsiynau print bras neu gallwch lawrlwytho codau mynediad ar-lein fel y gall claf gwblhau adborth yr un ffordd ag y byddai cydweithiwr yn ei wneud.
- Lle bo modd, dylech barhau i ddilyn cyngor y Cyngor Meddygol Cyffredinol a phenodi rhywun i hwyluso'r broses ar eich rhan. Gallai hyn fod yn ysgrifennydd, derbynnydd, neu aelod arall o staff clinigol neu anghlinigol.
- Ar unrhyw adeg gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif Orbit360 i fonitro cynnydd eich adborth.

Mae ein pennaeth ar yr Uned Cymorth Ailddilysu (UCA), Dr Chris Price wedi [recordio fideo fer](#) i gefnogi ymgynghoriadau rhithwir a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Yn Orbit360, allwch chi **ddim** gweld pa unigolion sydd wedi cwblhau'r adborth. Fe allwch, fodd bynnag, weld faint o ymatebion yr ydych wedi eu derbyn a pha hyd sydd gennych yn weddill hyd nes i'ch arolwg ddiweddu. Bydd angen i chi gasglu 34 ymateb claf i gyrraedd gofynion arolwg Orbit360.

Gall ymgynghoriad o bell gollu'r gydberthynas meddyg a chlaf, ac fe allai cleifion deimlo'n siomedig ag ymgynghoriadau o bell. Mae'n bosib y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ag adborth wael.

Rhaid cymedroli'r adborth ar sail y wybodaeth yr ysgrifenydd yr adborth arni. Mae gwerth adborth yn dal i sefyll. Os ydych yn meddwl fod yr adborth yn waelach nag a fyddai fel arfer, mae'n bosib fod rhaid i chi newid rhywbeth ynglŷn â'ch ymgynghoriadau rhithwir. Rhaid i bob unigolyn adlewyrchu ar ei adborth ei hun yn ei ffordd ei hun.

Beth sydd nesaf...

Wrth gynnal ymgynghoriadau rhithwir, os ydych chi'n gweithio'n ymarferol ac yn defnyddio meddalwedd testun neu e-bost i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion, fe allech chi ystyried defnyddio hwn i ddsbarthu'r ddolen arolwg a'r cod mynediad. Gallech hefyd archwilio nodweddion eraill a ddefnyddir yn eich practis / ysbyty i helpu gyda chasglu adborth cleifion.

Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar ein tudalen [Cwestiynau Cyffredin](#).